Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol G.G. Castellau
# Ffordd Castellau
# Beddau
# Pontypridd
# Rhondda Cynon Taf
# CF38 2AA

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau ym mhentref Beddau, rhwng Llantrisant a Phontypridd, ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw prif gyfrwng y dysgu. Oddeutu 23% o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg.

Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan-amser i'r dosbarth meithrin, ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 36 o blant yn y dosbarth meithrin rhan-amser a 254 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan wyth o athrawon amser llawn a thri athro rhan-amser.

Mae cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn 8%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn is na chanrannau Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau yn 2014-2015 yn £3,138. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf yw £5,513 a'r lleiafswm yw £2,514. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau yn y 72ain safle allan o'r 110 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

**Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd**

- Bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda
- Bod yr athrawon yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu sydd, yn gyffredinol, yn bodloni anghenion mwyafrif y disgyblion
- Bod darpariaeth effeithiol yn bodoli i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol a chartrefol, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel
- Bod darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Fodd bynnag:**

- Dros amser, mae perfformiad yr ysgol ar y cyfan yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gyson yn yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws meysydd eraill y cwricwlwm
- Lleiafrif o'r disgyblion sy'n ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith
- Mae gor-gyfarwyddo yn llesteirio disgyblion hŷn yr ysgol rhag cymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu

## Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd**

- Bod y pennaeth yn arwain ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r staff i ddatblygu cymuned weithgar a gofalgar
- Bod cynnydd diweddar i'w weld yn safonau'r disgyblion
- Bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Bod y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol a bellach yn herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- Bod partneriaethau cadarn yn bodoli gyda'r rhieni a'r gymuned, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at brofiadau a deilliannau'r dysgu

**Fodd bynnag:**

- Nid yw nifer o weithdrefnau a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi cael effaith

gadarnhaol ar safonau
- Nid yw'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau'r arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau yn ddigon effeithiol i osod targedau
- Ni fu digon o gynnydd wrth ymateb i un o argymhellion yr arolygiad blaenorol

## Argymhellion

A1 Parhau i godi safonau iaith a mathemateg ar draws yr ysgol a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella medrau Saesneg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cryfhau sylwadau marcio athrawon i sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella

A4 Gwneud gwell defnydd o ganfyddiadau arsylwadau a chraffu ar lyfrau i nodi agweddau lle mae angen gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Er mai ail iaith yw'r Gymraeg i lawer o'r disgyblion, maent oll yn ymdrin â'r iaith yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud, yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac yn ymateb i holi gan yr athrawon yn effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n eglur a thrafodant brofiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus ar lefel unigol ac fel aelodau o grŵp. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn gadarn gyda bron pob disgybl yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn datblygu'n dda.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac o fewn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol i'w hoed a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio i wneud synnwyr da o brint. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau ar lefel syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn medru ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion ffurfiau fel cerdyn post ac ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer cod cefn gwlad. Ar y cyfan, mae ansawdd sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn dda. Mae llawer yn gallu defnyddio eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw eu medrau ysgrifennu Saesneg yn datblygu i'r un graddau. Mae llawer yn atalnodi ac yn paragraffu eu gwaith yn addas yn ôl eu gallu ond nid ydynt yn ysgrifennu ystod ddigonol o waith estynedig. Er bod safonau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn dda mewn gwersi iaith, nid ydynt yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm, yn enwedig trwy gyfrwng y Saesneg. Ar y cyfan, mae cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen yn dda ar draws yr ysgol.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Ar y cyfan, mae disgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da, ond nid ydynt bob amser yn gweithio ar y lefel briodol ar draws yr holl bynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn gwersi mathemateg.  Ym mlwyddyn 2 mae llawer o ddisgyblion yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, yn dyblu neu'n haneru rhifau yn gywir.  Maent yn mesur gan ddefnyddio unedau safonol ac yn datrys problemau syml gan ddefnyddio gwybodaeth ar graff bloc ac yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol mewn meysydd dysgu eraill; er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn archwilio'r gost ac elw o wneud cacennau i'w gwerthu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn rhifedd.  Gallant luosi rhifau a degolion, darllen a dehongli data a mesur onglau yn gywir.  Maent yn cymhwyso'u medrau'n addas ar draws y cwricwlwm.  Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, maent yn dod o hyd i'r gwahaniaeth mewn tymheredd rhwng Awstralia a Chymru a mesur faint o siwgr sydd mewn diodydd mewn gwyddoniaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn gweithgareddau iaith ac wrth ddatrys problemau.  Mae'r disgyblion mwy abl yn prosesu geiriau yn llwyddiannus ac yn creu darluniau pwrpasol.  Fodd bynnag, nid yw medrau TGCh llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n ddigon effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, ac eithrio iaith yn 2014, pan roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% uwch,  mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod o dair blynedd ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a'r deilliant uwch (deilliant 6) o'u cymharu ag ysgolion tebyg wedi gosod yr ysgol yn gyson rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) a'r lefel uwch, o'u cymharu ag ysgolion tebyg wedi gosod yr ysgol yn gyson rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Ar draws yr ysgol, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaethau rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â gweddill y disgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar y deilliannau disgwyliedig nac ychwaith y rhai uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth ond mae'r bechgyn yn tueddu i berfformio'n well mewn mathemateg.  Ar y lefel uwch, mae bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yn gyson mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth.

**Lles:  Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.  Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac o gadw'n heini.

Mae safonau ymddygiad yn uchel iawn ac mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais.  Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd.

Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda.  Mae'r ffordd y mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn trafod yn aeddfed sut i wella eu gwaith yn gryfder amlwg.  Fodd bynnag, nid yw gallu'r disgyblion hŷn i wella eu dysgu eu hunain, nac i weithio'n annibynnol, wedi datblygu'n llawn.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn fforymau da i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.  Maent wedi eu sefydlu'n gadarn ac mae'r aelodau yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd yr ysgol.  Roedd y cyngor ysgol yn allweddol ym mhenderfyniad yr ysgol i newid y fwydlen ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y disgyblion sy'n cymryd cinio ysgol yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.  Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol ac yn cydweithio'n effeithiol yn y pentref.  Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn cymryd rhan i ofalu am yr ardd gymunedol.

Mae lefelau presenoldeb yn dangos cynnydd yn flynyddol ac wedi bod yn yr 50% uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu priodol sy'n ennyn diddordeb mwyafrif y disgyblion yn addas.  Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau cydbwysedd pynciol, nac yn ddigon amrywiol i sicrhau her bwrpasol i'r disgyblion mwyaf abl.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymor hir.  Mae ystod berthnasol o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd Saesneg a TGCh ar draws meysydd eraill y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn llai effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys clybiau chwaraeon, dawns, gwyddoniaeth a mathemateg.  Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn gadarn ac yn ganolog i holl waith yr ysgol.  Trwy ymweld â safleoedd hanesyddol, fel amgueddfa San Ffagan a Chastell Caerdydd, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth.

Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff ac mae aelodau'r cyngor ysgol yn gofalu'n gydwybodol am yr ardd gymunedol sydd ar dir yr ysgol. Mae darpariaeth effeithiol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach. Er enghraifft, mae'r cyswllt gydag India yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynyddu dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas waith effeithiol gyda'i gilydd a chyda'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i sicrhau cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn rheoli ymddygiad yn effeithiol.

Mae athrawon yn modelu iaith yn dda ar bob achlysur, ac yn annog y disgyblion i ddatblygu safon eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol.

Yn y mwyafrif o achosion, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn glir ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog gyda chyflymder da a holi effeithiol. Fodd bynnag, mae tueddiad yng nghyfnod allweddol 2 i or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Ar y cyfan, mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith. Wrth farcio gwaith disgyblion, er y ceir amrywiaeth o sylwadau calonogol, ychydig sy'n rhoi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith. Oherwydd hyn, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn deall yn llwyr yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain na'u cyfoedion. Nid yw polisi marcio'r ysgol yn cael ei weithredu'n gyson yng nghyfnod allweddol 2.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi eu hadolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i farnu ei lwyddiant na pha mor effeithiol ydyw ar gyfer gosod targedau heriol i'r disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl ac yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i fod yn ddiogel yn effeithiol.

Mae'r cynllun 'Llaw yn llaw' sy'n cyfeillio plentyn hŷn gyda phlentyn sy'n dechrau'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd cymdeithasol yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn cymysgu yn dda gyda'r rhai iau.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn hynod o effeithiol. Mae'r cyfnodau i fyfyrio ac amser cyd-addoli yn amlwg ym mywyd yr ysgol ac mae gwerthoedd fel parch, tegwch a meddwl am gyflwr pobl sy'n wynebu anawsterau mewn gwledydd eraill yn cael eu meithrin yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn eu galluogi i wneud cynnydd amlwg.  Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.  Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle ac mae rhieni yn cael cyfle i'w trafod a'u hadolygu yn gyson.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn groesawgar a chynnes.  Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgar iawn lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel a chydweithiant yn effeithiol iawn gyda'i gilydd a chydag oedolion.  Nodwedd gref yr ysgol yw ei Chymreictod.

Rhoddir pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion.  Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol.

Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ystafell ddosbarth ac mae staff yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i wella dysgu disgyblion.  Mae'r adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o dda ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.  Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae ansawdd y safle'n dda iawn.  Caiff ei gynnal yn dda ac mae'n cynnig amgylchedd ysgogol sy'n hyrwyddo dysgu llwyddiannus.  Mae'r mannau dysgu yn yr awyr agored wedi cael eu datblygu yn hynod o effeithiol i wella profiadau dysgu a chwarae.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.  Mae nifer o strategaethau newydd ar waith, ond mae'n rhy gynnar eto i farnu eu heffaith ar safonau'r disgyblion.  Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.  Mae rôl yr uwch dim rheoli yn datblygu'n briodol ac maent yn dechrau cymryd rhan weithredol wrth fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu.  Mae effaith hyn yn amlwg yn y cynnydd diweddar a welir mewn safonau ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol.  Maent yn cyfrannu'n briodol at brosesau hunanarfarnu trwy drafod data cyrhaeddiad, arsylwi gwersi a monitro'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.  Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel ffrindiau beirniadol, sy'n herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Llwydda’r ysgol i ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol drwy fynd i’r afael â chodi safonau rhifedd a hyrwyddo Cymreictod. Rhoddir sylw da i lais y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw asesu ar gyfer dysgu yng nghyfnod allweddol 2 wedi ei ddatblygu’n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysol. Mae’r ysgol yn canfod barn llywodraethwyr, rhieni, disgyblion, ac athrawon yn rheolaidd ac yn gweithredu’n lled effeithiol ar eu sylwadau.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu a baratowyd cyn yr arolygiad yn cynnig barn amlwg ar nodweddion da'r ysgol. Fodd bynnag, mae’n rhy ddisgrifiadol mewn mannau, ac nid yw’n rhoi darlun digon clir o’r agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a’r addysgu. Mae arweinwyr yn dadansoddi canlyniadau profion y disgyblion yn ffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae hyn yn rhoi darlun clir iddynt o batrymau mewn perfformiad. Fodd bynnag, ni wneir digon o ddefnydd o arsylwadau gwersi na chraffu ar samplau o waith y disgyblion wrth arfarnu perfformiad a gosod targedau.

Mae cynllun datblygu’r ysgol yn canolbwyntio’n briodol ar flaenoriaethau sy’n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion. Fe osodir meini prawf llwyddiant clir ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella perfformiad yr ysgol o gymharu â’r teulu o ysgolion tebyg. Cyfeiria’r cynllun yn effeithiol at y camau i’w cymryd, y meini prawf llwyddiant, amseriad a chyfrifoldeb, trefniadau monitro a chyllidebu. Fodd bynnag, nid yw’r camau gweithredol wedi cael digon o amser i ddylanwadu’n gadarnhaol ar safonau.

Mae cynnydd tuag at gyflawni bron pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi bod yn effeithiol, ond mae camau i wella cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau yn Saesneg ar draws y cwricwlwm wedi bod yn rhy araf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae partneriaeth gref yn bodoli gyda’r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau’r ysgol yn weithgar ac yn codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau fel cyfarpar i gefnogi TGCh.

Mae’r disgyblion yn elwa o berthynas glos â’r gymuned leol gan wneud defnydd buddiol o fusnesau lleol i hyrwyddo eu gwybodaeth o fyd menter a busnes.

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag ysgolion lleol i gynnal hyfforddiant ar y cyd. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli gyda’r ysgolion hyn ar gyfer safoni a chymedroli gwaith y disgyblion. Mae hyn yn arwain at sicrhau ansawdd da a dealltwriaeth glir gan yr athrawon o safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a’r cylchoedd meithrin cyfagos. Mae trefniadau i’r plant ymweld â’r ysgol ar ddyddiau penodol ac mae athrawes y Cyfnod Sylfaen yn mynd i ymweld â’r sefydliadau hyn yn rheolaidd er mwyn hybu trosglwyddo llwyddiannus.

Mae trefniadau trosglwyddo rhwng yr ysgol a’r ysgol uwchradd yn dda ac yn paratoi’r disgyblion yn effeithiol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn manteisio ar bartneriaethau priodol gydag asiantaethau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, sefydliadau cymunedol a'r awdurdod lleol. Mae staff yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi gwaith yr ysgol yn briodol pan fo angen.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n effeithiol gan athrawon a chymorthyddion sydd â chymwysterau a phrofiad priodol. Mae'n rheoli ei hadnoddau yn briodol ac fe wneir defnydd da o arbenigedd yr athrawon a'r cymorthyddion i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau'r disgyblion.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac mae athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn briodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol fuddiol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill y dalgylch i ddatblygu strategaethau rhifedd a gwella ansawdd cwestiynu. Mae hyn wedi gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu'n briodol â thargedau a chynlluniau gwelliant yr ysgol. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd ar waith i dargedu disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Fe gyflogir staff ychwanegol rhan-amser i roi cymorth i ddisgyblion sy'n cael anhawster gyda'u medrau llythrennedd a rhifedd ac i herio disgyblion mwy abl. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y meysydd hyn.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6742359 - Y.G.G. CASTELLAU**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 243 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 37 | 33 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 64.9 | 81.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 37 | 33 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.4 | 81.8 | 97.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 10.8 | 24.2 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 37 | 33 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 81.1 | 84.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.9 | 18.2 | 21.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 37 | 33 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.4 | 93.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 32.4 | 36.4 | 42.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742359 - Y.G.G. CASTELLAU**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 243 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 27 | 14 | 24 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 70.4 | 85.7 | 83.3 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 14 | 24 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 74.1 | 85.7 | 79.2 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.2 | 28.6 | 20.8 | 31.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 14 | 24 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 66.7 | 71.4 | 83.3 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 18.5 | 28.6 | 20.8 | 31.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 14 | 24 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.8 | 85.7 | 91.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.9 | 28.6 | 16.7 | 31.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 14 | 24 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.2 | 85.7 | 91.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 11.1 | 28.6 | 16.7 | 31.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytun o | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 106 | 104<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 106 | 96<br>91%<br>92% | 10<br>9%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 105 | 101<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 105 | 104<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 107 | 106<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 102 | 97<br>95%<br>96% | 5<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 106 | 104<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 106 | 97<br>92%<br>98% | 9<br>8%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 104 | 87<br>84%<br>91% | 17<br>16%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 107 | 101<br>94%<br>95% | 6<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 103 | 69<br>67%<br>77% | 34<br>33%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 102 | 84<br>82%<br>84% | 18<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 73 | 47 | 24 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 33% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 73 | 53 | 19 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 73 | 55 | 15 | 1 | 1 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 21% | 1% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 73 | 43 | 21 | 8 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 59% | 29% | 11% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 72 | 32 | 30 | 5 | 1 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 44% | 42% | 7% | 1% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 72 | 42 | 26 | 2 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 58% | 36% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 73 | 50 | 21 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 68% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 73 | 37 | 30 | 3 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 51% | 41% | 4% | 1% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 72 | 41 | 22 | 7 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 57% | 31% | 10% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 73 | 41 | 27 | 1 | 1 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 37% | 1% | 1% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 73 | 50 | 20 | 1 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 27% | 1% | 1% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 72 | 35 | 24 | 5 | 1 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 49% | 33% | 7% | 1% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 72 | 36 | 26 | 9 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 36% | 12% | 1% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 73 | 46 | 24 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 33% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 72 | 33 | 25 | 5 | 0 | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 46% | 35% | 7% | 0% | | |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 72 | 41 | 26 | 4 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 36% | 6% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 68 | 26 | 20 | 3 | 1 | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 38% | 29% | 4% | 1% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 73 | 38 | 30 | 5 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 52% | 41% | 7% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 73 | 49 | 22 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 67% | 30% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Davies | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.